# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

# 241(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**I ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**

Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru): Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig i fusnesau ac unigolion sydd wedi'u heffeithio gan y tân yn y Fenni?

**I ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionnydd): A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am yr her 50 diwrnod newydd i fyrddau iechyd fynd i'r afael ag oedi wrth ryddhau cleifion o’r ysbyty?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?

(60 munud)

**NDM8718** Buffy Williams (Rhondda)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sef ‘A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?’ a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Gorffennaf 2024, a'r fersiwn hawdd ei deall a osodwyd hefyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Gorffennaf 2024.

Sylwer: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2024.

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith - Adfer safleoedd glo brig

(60 munud)

**NDM8720** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Adfer safleoedd glo brig, a osodwyd ar 8 Awst 2024.

Sylwer: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2024. Ymatebodd (Saesneg yn unig) preswylwyr Abertawe ar 22 Awst 2024. Ymatebodd (Saesneg yn unig) Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar 13 Medi 2024.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – 100 diwrnod cyntaf y Prif Weinidog

(60 munud)

**NDM8721** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi mai 14 Tachwedd 2024 yw canfed diwrnod Eluned Morgan AS fel Prif Weinidog Cymru.

2. Yn gresynu nad yw'r Prif Weinidog wedi sefyll dros Gymru a sicrhau'r gwelliannau y mae pobl Cymru yn eu haeddu.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu nad yw’r Prif Weinidog wedi amlinellu gweledigaeth newydd gynhwysfawr ar gyfer ei Llywodraeth.

Yn gresynu nad yw’r Prif Weinidog wedi llwyddo i wneud yr achos yn ddigon cryf gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig dros:

a) cyflwyno fformiwla cyllido teg i gymryd lle fformiwla Barnett;

b) datganoli Ystad y Goron;

c) digolledu Cymru’n llawn am wariant ar HS2;

d) gwrthdroi’r penderfyniad i gael gwared ar lwfans tanwydd y gaeaf i rai pensiynwyr; ac

e) cael gwared ar y cap budd-dal dau blentyn.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod y cynnydd sylweddol y mae’r Prif Weinidog wedi’i wneud yn ystod ei 100 diwrnod cyntaf gan gynnwys:

a) sefyll i fyny dros deuluoedd drwy ariannu codiadau cyflog uwch na chwyddiant i weithwyr gwasanaethau cyhoeddus a thrwy orffen cyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd Cymru;

b) sefyll i fyny dros y GIG drwy ddarparu £28 miliwn yn ychwanegol i fynd i'r afael â rhestrau aros a thrwy agor Ysgol Feddygol Gogledd Cymru i hyfforddi meddygon y dyfodol; ac

c) sefyll i fyny dros Gymru drwy weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU, partneriaeth sydd eisoes wedi sicrhau setliad ariannol gwell i Gymru a £25 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y DU i gefnogi ein gwaith i ddelio â thomenni glo nas defnyddir.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8717** Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionnydd)

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol - pla Cymru heddiw.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 19 Tachwedd 2024

## Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 06/11/2024 i'w hateb ar 13/11/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

### YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS GYLLID A'R GYMRAEG

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

1 OQ61844 **(w)**

Pa drafodaethau mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi cael gyda Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ynglŷn a sicrhau bod awdurdodau lleol Cymru yn derbyn cyllid digonol i barhau i ddarparu gwasanaethau?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

2 OQ61856 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynglŷn a chyllideb hydref Llywodraeth y DU?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

3 OQ61848 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer yr arian ychwanegol a ddyrannwyd iddi yng nghyllideb Llywodraeth y DU?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OQ61835 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am effaith cyllideb ddiweddar Llywodraeth y DU ar Gymru?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

5 OQ61841 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Llywodraeth Cymru i ddiwygio ardrethi busnes?

**Peter Fox** *Mynwy*

6 OQ61847 **(e)**

Sut y mae polisi trethi Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i gefnogi busnesau yn ne-ddwyrain Cymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

7 OQ61833 **(w)**

Ydy'r Llywodraeth yn bwriadu diweddaru Cymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 i ymgorffori ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn dilyn argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

8 OQ61830 **(w)**

Pa drafodaethau mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi ei gael gyda'r Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg a gyda awdurdodau lleol ynglŷn a hybu y Gymraeg ymysg pobl o leiafrifoedd ethnig?

**Lesley Griffiths** *Wrecsam*

9 OQ61827 **(e)**

Pa ystyriaeth y mae yr Ysgrifennydd Cabinet wedi'i rhoi i sicrhau bod symiau canlyniadol Barnett o gyllideb yr hydref Llywodraeth y DU yn cael eu defnyddio i gefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

10 OQ61820 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ynghylch y pwysau ariannol presennol y mae cynghorau yn Nwyrain De Cymru yn eu hwynebu?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

11 OQ61839 **(w)**

Beth yw asesiad Ysgrifennydd y Cabinet o effaith cyllideb ddiweddar Llywodraeth y DG ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

12 OQ61819 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mhreseli Sir Benfro?

## Y DIRPRWY BRIF WEINIDOG AC YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS NEWID HINSAWDD A MATERION GWLEDIG

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

1 OQ61826 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar y gwaith amddiffyn rhag llifogydd parhaus yn y Mwmbwls?

**Joel James** *Canol De Cymru*

2 OQ61829 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am ffermio gwymon yng Nghymru?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

3 OQ61849 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael â Llywodraeth y DU am effaith cyllideb Llywodraeth y DU ar ffermydd teuluol yng Nghymru?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

4 OQ61831 **(e)**

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â llifogydd yn ardal Caerdydd?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

5 OQ61855 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o effaith cyllideb hydref Llywodraeth y DU ar amaethyddiaeth Cymru?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

6 OQ61846 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwydiant amaethyddol yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

7 OQ61842 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o effaith economaidd bosibl Llywodraeth y DU yn newid treth etifeddiant ar Gymru wledig?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

8 OQ61845 **(w)**

Pa fesurau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau'r risg o lifogydd yng Nghanol De Cymru, gan ystyried effeithiau newid hinsawdd a llifogydd dinistriol diweddar ledled Ewrop?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OQ61836 **(e)**

Pa asesiad effaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ar effeithiau diwygiadau diweddar Llywodraeth y DU i ryddhad eiddo amaethyddol a rhyddhad eiddo busnes ar ffermydd teuluol?

**Vaughan Gething** *De Caerdydd a Phenarth*

10 OQ61854 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Cymru ar ddod yn genedl sy'n arwain y byd ar ailgylchu?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

11 OQ61851 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddynodi parc cenedlaethol yng ngogledd-ddwyrain Cymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

12 OQ61818 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ffermwyr ym Mhreseli Sir Benfro?